

Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd

Dogfen Tariff Cyfanwerthu 2020/21

Mae'r Bwrdd wedi ystyried Dogfen Tariff Cyfanwerthu 2020/21 mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2019 a 2 Ionawr 2020. Ystyriodd y Bwrdd ddeunyddiau ategol perthnasol, gan gynnwys adroddiad gan Jacobs a oedd wedi bod yn rhan o'r gwaith o roi sicrwydd allanol, a holodd y Tîm Gweithredol yn briodol, yn benodol y Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol, gall y Bwrdd gadarnhau, hyd y gwyddwn, fod y taliadau yn Nogfen Tariff Cyfanwerthu Dŵr Cymru yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol amrywiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i haddaswyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, gyda'i gilydd.

Gallwn gadarnhau i gamau priodol gael eu cymryd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y mae'r ddogfen yn seiliedig arni yn gywir o fewn lefelau rhesymol o oddefiant. Mae'r ddogfen a'r wybodaeth ofynnol ychwanegol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheoli mewnol ac, yn unol â hynny, maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

O ystyried *'Rheolau codi tâl cyfanwerthu a gyhoeddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 66E a 117I o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991'* a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2018, rydym o'r farn bod ein taliadau yn gyson â'r gofynion hyn, gan ystyried y rheolau codi tâl cyfanwerthu gyda'i gilydd.

Mae'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth berthnasol am yr effeithiau a gaiff y taliadau newydd ar gwsmeriaid sy'n byw mewn eiddo cymwys, a gall gadarnhau nad oes disgwyl i unrhyw gwsmer weld ei fil yn cynyddu mwy na 5%.

Mae'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth berthnasol am y gwahaniaeth rhwng y taliadau cyfanwerthu a thaliadau cyfanwerthu enghreifftiol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019. Mae'r taliadau terfynol yn uwch na'r taliadau enghreifftiol o ganlyniad i'r gwahaniaeth rhwng y Penderfyniad Drafft (sy'n sail i'r taliadau enghreifftiol) a'r Penderfyniad Terfynol a gyhoeddwyd gan Ofwat ar 16 Rhagfyr 2019.

Mae'r cwmni wedi ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac wedi gohebu â manwerthwyr a phenodeion eraill sy'n gweithredu yn ein hardal mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r Ddogfen Tariff Cyfanwerthu.



Alastair Lyons

Cadeirydd

Ar ran y Bwrdd
13 Ionawr 2020